

OWEN, ELLIS (1789-1868), amaethwr, hynafiaethydd, a bardd

Enw: Ellis Owen

Dyddiad geni: 1789

Dyddiad marw: 1868

Rhiant: Ann Owen (née Thomas)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: amaethwr, hynafiaethydd, a bardd

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth

Awdur: William Rowlands

Ganwyd yn Cefn-y-meysydd Isaf, plwyf Ynyscynhaearn, Eifionydd, Sir Gaernarfon, 31 Mawrth 1789. Yr oedd yn ddibriad, a threuliodd ei oes yng Nghefn-y-meysydd gyda'i fam a'i chwiorydd. Bu farw 27 Ionawr 1868 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Ynyscynhaearn, ger Pentrefelin, 31 Ionawr. Addysgwyd ef gyntaf mewn ysgol a gynhelid yn eglwys Penmorfa; yr oedd [David Owen](#) ('Dewi Wyn') yn gyd-ysgolor ag ef. Wedyn anfonwyd ef i ysgol yn Amwythig i ddysgu Saesneg, a threuliodd weddill ei oes fel amaethwr yng Nghefn-y-meysydd. Llanwai lawer o fân swyddau yn ei ardal, megis warden yr eglwys, arolygydd pwysau a mesur dros y sir, llywydd ac ysgrifennydd ysgolion Sul Methodistiaid Calфинаidd Lleyn ac Eifionydd, ysgrifennydd Cymdeithas y Beiblau yn nosbarth Tremadog, ac amryw gymdeithasau eraill. Fel hynafiaethydd cymerai ddiddordeb mawr yn hanes ei ardal a'i sir, ac ysgrifennodd lawer i gylchgronau, fel *Seren Gomer*, *Y Drysorfa*, *Y Gwladgarwr*, a'r *Brython* (Tremadog). Edrychid i fyny ato yn ei ddydd fel beirniad llenyddol a hynafiaethydd, a'r fwyddyn y bu farw etholwyd ef yn F.S.A. Yn ei oes ef yr oedd Eifionydd yn enwog am ei beirdd a'i llenorion, ac yn 1846 sefydlodd Ellis Owen Gymdeithas Lenyddol Eifionydd yng Nghefn-y-meysydd er hyrwyddo diwylliant ei ardal. Bu cryn fri ar hon am tua 12 mlynedd, ac yno casglai amaethwyr ieuainc y fro at ei gilydd i drafod pynciau llenyddol ac addysgol dan arweiniad Ellis Owen. Ysgrifennydd cyntaf y gymdeithas oedd Thomas Jones, Cefn-y-meysydd Uchaf, a fu'n weinidog ar eglwys Tabor (A.), Pentrefelin, a byddai beirdd fel [Ebenezer Thomas](#) ('Eben Fardd'), '[Dewi Wyn](#),' [Morris Williams](#) ('[Nicander](#)'), yn ymweld â'r gymdeithas yn fynych. Ystyrid Ellis Owen yn feirniad craff hefyd, a bu'n gydfeirniad ag [Evan Evans](#) ('[Ieuan Glan Geirionydd](#)') ar awdl y gadair yn eisteddfod Gordofigion Lerpwl, 1840, pan enillodd '[Eben Fardd](#)' ar yr awdl 'Job'; yr oedd yn un o ysgrifenyddion eisteddfod Tremadog yn 1851. Fel bardd nid oedd mor enwog â'i gyfoedion '[Dewi Wyn](#)' a [Robert Williams](#) ('Robert ap Gwilym Ddu'), ond cyfansoddodd lawer o englynion a cherddi byrion, a lluniodd ugeiniau o englynion-beddargraff ar gais ei gyfeillion ac ardalwyr Eifionydd. Cyhoeddwyd ei farddoniaeth a'i ysgrifau o dan y teitl *Cell Meudwy* gan ei gyfaill [Robert Isaac Jones](#) ('Alltud Eifion') yn Nhremadog yn 1877. Y mae amryw o'i lawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Yr oedd ei fam, Anne (Thomas), yn chwaer i'r hynafiaethwyr [John Thomas](#) (1736 - 1769) a [Richard Thomas](#) (1753 - 1780); gweler [J.E. Griffith](#), *Pedigrees*, 359.

Awdur

William Rowlands

Ffynonellau

Y Gestiana, 71-4

Cell Meudwy, sef Gweithiau Barddonol a Rhyddieithol (1877) (cofiant), 1-34

Enwogion Sir Gaernarfon (1922), 268-9

Cymru (O.M.E.), xxvi, 29-33

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 333

NLW MSS 998-1024, 2710, 3292, 3423, 4452, 4857, 6041

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Ellis Owen](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [46549080](#)

Wikidata: [Q18534796](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

